Cymunedau Digidol Cymru
Hyder Digidol, Iechyd a Lles
Digital Communities Wales
Digital Confidence, Health and Well-being
Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Allgáu Busnesau Bach yn Ddigidol

## Crynodeb Gweithredol
## Adroddiad Ymchwil

Dyddiad: 11.4.23

Paratowyd ar gyfer: Cwmpas, Cymunedau Digidol Cymru
Cyhoeddwyd gan: Research Works Limited

Mae'r crynodeb hwn yn ymdrin ag ymchwil a gomisiynwyd gan Cwmpas ac a gynhaliwyd gan Research Works Limited, gyda'r nod o nodi dealltwriaeth busnesau bach o gynhwysiant digidol yng Nghymru a beth yw effaith allgáu digidol ar fentrau bach a chanolig. Mae'r prif adroddiad ymchwil yn rhoi manylion llawn y canfyddiadau a grynhoir yn y ddogfen hon.



Bron i 30 mlynedd ar ôl lansio'r We Fyd-eang, mae llawer o bobl yn dal i fod wedi'u heithrio o wasanaethau digidol. Maen nhw'n dal i fod heb yr offer, y cysylltedd, y cymhelliant a'r sgiliau digidol sydd eu hangen i wneud defnydd llawn a hyderus o'r gwasanaethau ar-lein a'r cyfleoedd eraill a gynigir gan y rhyngrwyd. Nid yw'r sector busnesau preifat bach yng Nghymru yn eithriad, sy'n cynnwys oddeutu 217,200 o fusnesau ar hyd a lled Cymru. Mae hyn yn gyfle i fusnesau bach a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu elwa ar gynhwysiant digidol pellach.

Ar hyn o bryd mae Cwmpas yn darparu Cymunedau Digidol Cymru: Rhaglen Hyder Digidol, Iechyd a Llesiant sy'n ceisio lleihau allgáu digidol yng Nghymru trwy ddarparu opsiynau megis hyfforddiant sgiliau digidol, benthyg dyfeisiau, ymgynghori, ac amrywiaeth eang o gymorth i sefydliadau sy'n cynnig cymorth uniongyrchol i'r rhai nad ydyn nhw ar-lein. Nid oes gan y rhaglen gynnig penodol i fusnesau bach a chanolig yn y sector preifat yng Nghymru ar hyn o bryd.

**Busnesau Bach:** Mae 8,500 o fusnesau bach yng Nghymru ac mae'r mwyafrif ohonyn nhw'n gweithredu yn y sectorau iechyd, llety a bwyd, cynhyrchu, cyfanwerthu ac addysg.

**Microfusnesau:** Mae 208,700 o ficrofusnesau yng Nghymru (busnesau â 10 neu lai o weithwyr) sy'n cyfrif am 97% o'r sector busnesau bach a microfusnesau yn ei gyfanrwydd.

**Ble rydyn ni arni nawr:** Dengys ymchwil bod allgáu digidol yn y sector busnesau bach a microfusnesau yng Nghymru yn effeithio ar fusnesau ar draws sectorau a daearyddiaeth, gyda lefelau uwch o ymgysylltu mewn busnesau bach, a lefelau is mewn microfusnesau.

- **Microfusnesau amaethyddiaeth ac adeiladu –** sy'n ymgysylltu'n ddigidol leiaf yn gyffredinol
- **Roedd Covid-19 yn sbardun allweddol –** mae busnesau bach sy'n ymgysylltu mwy yn ddigidol yn debygol o fod â'u gwefan a'u cyfryngau cymdeithasol eu hunain ac yn defnyddio datrysiadau cwmwl a wnaeth eu galluogi i oroesi yn ystod y pandemig
- **Mae busnesau bach yn creu cyfleoedd gwaith –** mae galw am weithwyr medrus sydd â gwybodaeth am feddalwedd penodol i ddiwydiant

# 1. Rhwystrau sy'n wynebu busnesau bach a microfusnesau

- **Amser:** Ni all busnesau bach a microfusnesau fforddio'r amser i ffwrdd o ddyletswyddau busnes arferol i hyfforddi staff.
  *'Rydyn ni wedi siarad am fynd yn electronig, ond mae angen amser'* (busnes manwerthu)
- **Cost:** Gyda'r argyfwng costau byw presennol yn creu amodau masnachu anodd nid yw llawer o fusnesau bach yn gallu buddsoddi mewn offer a meddalwedd digido.l
  *'Rydyn ni'n cael ein herio gymaint yn ariannol, mae gan bob shifft y nifer isaf posib o staff, does dim adnoddau sbâr'* (busnes llety)
- **Cysylltiad:** Dywedodd busnesau bach a microfusnesau mewn ardaloedd gwledig nad oedd ganddyn nhw fynediad at fand eang
- **Gwybodaeth:** Nid oedd gan fusnesau bach y cymhelliant i gael gafael ar y wybodaeth sydd ei hangen i ddigideiddio eu busnesau
- **Diffyg hyder:** Mae perchnogion busnesau bach a microfusnesau yn ansicr ynghylch yr ateb digidol cywir sydd fwyaf addas i'w busnes, gan bryderu y gallai meddalwedd newydd amharu ar eu busnes
- **Diffyg sgiliau:** Mae gan berchnogion busnesau bach a microfusnesau ddiffyg sgiliau sy'n eu hatal rhag defnyddio'r atebion digidol mwyaf hygyrch. Nid oes gan weithwyr sgiliau sylfaenol gan eu bod yn cael eu cyflogi yn seiliedig ar eu sgiliau personol
- **Rheoli data a seiberddiogelwch:** Mae perchnogion busnesau bach yn bryderus ynghylch eu diffyg sgiliau eu hunain yn y maes hwn
- **Potensial heb ei wireddu:** Nid oedd busnesau bach yn ymwybodol o fanteision posib defnyddio atebion digidol gyda rhai yn dewis defnyddio meddalwedd trydydd parti i ennill busnes
- **Colli cyfleoedd i dyfu:** Roedd rhanddeiliaid, perchnogion busnesau bach a microfusnesau yn teimlo bod y eu busnesau yn colli cyfle trwy beidio ag ymgysylltu â thechnoleg ddigidol
- Ar draws y naill sector a'r llall mae **busnesau'n poeni am effeithiau negyddol atebion digidol yn hytrach na'r pethau cadarnhaol sy'n deillio o'u defnyddio;** Mae yna ganfyddiad bod cadw'n gyfoes a rheoli data'n bwysau ychwanegol ar fusnesau



## 2. Beth mae busnesau bach a microfusnesau eisiau

Roedd perchnogion a rheolwyr busnesau ar draws y sector eisiau gwella yn y meysydd hyn:

- **Mwy o gynhyrchiant –** dywedodd busnesau nad oedden nhw'n gwybod a allai eu prosesau fod yn fwy effeithiol
- **Rhannu gwybodaeth rhwng aelodau staff –** gan leihau'r ddibyniaeth ar aelodau unigol o'r tîm
- **Mwy o ddiogelwch i ddiogelu parhad busnes –** gan leihau'r risg o ymosodiadau seiber a thor diogelwch data
- **Gwell profiad staff –** cyfathrebu haws rhwng staff a lefel uwch o broffesiynolde
- **Arbed amser –** mynediad hawdd at systemau
- **Arbed costau –** cael gwared ar gomisiynau i froceriaid trydydd parti gyda phlatfform digidol

## 3. Beth sydd ei angen ar fusnesau bach a microfusnesau

- **Cymhellion i** ymgysylltu â thechnoleg ddigidol
- **Cefnogaeth i** ymgysylltu a deall pa dechnoleg i'w defnyddio
- **Cymorth i ddatblygu hyder a sgiliau sylfaenol;** gwybodaeth am ba dechnoleg ddigidol sydd ar gael ac sy'n berthnasol i'w busnes
- **Gwybodaeth am y buddion penodol y bydd technoleg ddigidol** yn eu cynnig i'w busnes
- **Technoleg hygyrch** y gallant ei harchwilio eu hunain; gan ddarparu ateb hyblyg sy'n effeithiol o ran cost ac amser



cwmpas

Cymunedau Digidol Cymru

Hyder Digidol, Iechyd a Lles

Digital Communities Wales

Digital Confidence, Health and Well-being

Llywodraeth Cymru
Welsh Government